# Dod â chydymaith gyda chi i'ch Asesiad Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)



Rydym yn annog i chi ddod â chydymaith gyda chi i'ch asesiad PIP.

Gall cydymaith fod yn aelod o'r teulu, ffrind, eiriolwr, gweithiwr allweddol, Gweithiwr Cymdeithasol, neu Nyrs Gymunedol, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

Gallent gynnig cefnogaeth foesol i chi a rhannu gwybodaeth ychwanegol am sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch o ddydd i dydd.

Os ydych chi'n cael asesiad ffôn neu fideo, gall eich cydymaith gael eu hychwanegu at yr alwad.

**Dyma ychydig o wybodaeth i chi a'ch cydymaith ei ddarllen cyn eich asesiad.**

- Mae'n bwysig bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn clywed gennych chi yn uniongyrchol yn ystod yr asesiad, felly er y gall eich cydymaith gyfrannu at y drafodaeth, ni ddylent siarad ar eich rhan.

- Ar gychwyn eich asesiad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn am eich caniatâd i'ch cydymaith fod yn bresennol ac i gyfrannu at yr asesiad. Byddant hefyd yn ceisio sefydlu natur y berthynas rhyngoch chi a'ch cydymaith – er enghraifft, a ydynt yno i gynnig cefnogaeth foesol, neu a oes ganddynt ddealltwriaeth pellach o'ch cyflwr.

- Er ei fod yn hynod annhebygol, gall y gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn wrth y cydymaith i adael yr asesiad os ydynt yn credu bod eu presenoldeb yn tarfu, neu os oes ganddynt reswm i gredu bod cydymaith yn mynychu am reswm arall, yn hytrach na'ch cefnogi.

## Gwybodaeth i'w rannu gyda'ch cydymaith cyn yr asesiad

- Bydd presenoldeb a chyfraniad eich cydymaith yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad asesu. Yn yr adroddiad hwnnw, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol hefyd yn ei gwneud yn glir pa wybodaeth a ddarparwyd gennych chi a beth a ddarparwyd gan eich cydymaith.

- Os yw eich cydymaith yn credu bod gwybodaeth bwysig wedi'i fethu am sut mae eich cyflwr yn effeithio ar eich bywyd bob dydd, dylent gyfrannu yn ystod yr asesiad. Efallai y bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn annog eich cydymaith i'ch helpu i ateb rhai cwestiynau os oes angen.

- Cyn belled â'ch bod yn rhoi caniatâd, gall eich cydymaith ofyn am gael siarad â'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar wahân ar ddiwedd yr asesiad os ydynt am ychwanegu rhagor o fanylion.

- Os yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn i chi wneud rhai symudiadau corfforol, ni all eich cydymaith gynorthwyo. Fodd bynnag, cyn belled â'ch bod chi a'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn gyfforddus â hyn, gall eich cydymaith fod yn bresennol drwy'r amser,

- Mae croeso i'ch cydymaith i gymryd nodiadau ac nid oes rhaid rhannu'r rhain â gweithiwr iechyd proffesiynol, Capita na'r Adran Waith a Phensiynau.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddod â chydymaith i'ch asesiad PIP, cysylltwch â'n tîm yma.**